

CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	2 Tachwedd 2026
TEITL	Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Y Ddeddf") Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau.
AWDUR	Iwan Evans – Swyddog Monitro

Cefndir

1. Mae adran 52A(1)(a) Deddf 2000 (fel y diwygiwyd gan Deddf 2021) yn ei gwneud yn ofynnol i arweinydd a grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Diffinnir "grŵp" at y diben hwn fel 2 neu fwy o aelodau sy'n rhoi hysbysiad i'r Swyddog Priodol eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp at ddibenion gofynion cydbwysedd gwleidyddol a dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor.
2. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir nad yw'r ddyletswydd hon yn gwneud arweinwyr grŵp gwleidyddol yn atebol am ymddygiad eu haelodau, gan fod ymddygiad yn fater o gyfrifoldeb unigol. Fodd bynnag, mae ganddynt rôl resymol i gymryd camau o ran cynnal safonau, gosod esiamp, defnyddio eu dylanwad i hyrwyddo a diwylliant cadarnhaol, bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn eu grŵp a mynd i'r afael â materion cyn gynted ag y byddant yn codi. Petai arweinydd grŵp gwleidyddol yn methu ag ymwneud gyda'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon, gellir bosib ystyried ei bod yn dod ag anfri ar eu swydd, ac yn debygol o fod yn torri'r Cod.
3. Mae adran 62(3) o Ddeddf 2021 yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ymestyn y swyddogaethau Pwyllgor Safonau i gynnwys monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr gwleidyddol grwpiau sydd â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o eu grŵp. Dylai arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau gytuno ar ffurf ac amllder adroddiad o bob arweinydd grŵp i'r Pwyllgor, a fyddai wedyn yn ystyried pob adroddiad a Rhoi adborth i arweinwyr y grŵp. Rhaid i'r Pwyllgor Safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob Tymor Cyngor dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid ei adolygu o leiaf bob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor Safonau gwrdd â grŵp arweinwyr o bryd i'w gilydd i adolygu trefniadau.
4. Yn ystod y flwyddyn yma llwyddwyd i gynnal cyfarfod rhwng yr Arweinyddion Grwpiau a'r Swyddog Monitro. mae'r drefn wedi ei chynnal eleni eto. Mae'r

berthynas weithio gyda phob Arweinydd yn gadarnhaol a chefnogol . Bellach mae 62 o aelodau wedi cwblhau y cwrs Cod Ymddygiad llawn . Mae'r Arweinyddion yn gwerthfawrogi ac wedi cefnogi ymdrechion i gyfarch y mater yma. Mae'r berthynas gadarnhaol yma yn rhoi hyder y gellir adeiladu ymhellach ar fanteision y drefn

5. Mewn cydweithrediad gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn Tachwedd 2022 mabwysiadwyd Protocol gweithredu y dyletswydd (Atodiad 1) gan y Pwyllgor ac yna yn Chwefror 2024 meini prawf a ffurflen adrodd (Atodiadau 2 a 3). Mae'n amserol ar ddiwedd cyfnod y Cyngor fod y Pwyllgor yn ail ymweld a'r materion yma.

Argymhelliad

Fod y Pwyllgor yn adolygu'r Protocol , Meini Prawf a Ffurflen Adrodd